Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penparc
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Penparc
# Penparc
# Aberteifi
# SA43 1SG

**Dyddiad yr arolygiad: 15-16 Ionawr 2013**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Penparc mewn caban ar safle'r ysgol gynradd leol ar gyrion pentref Penparc ger tref Aberteifi. Mae'r adeilad yn cynnig cyfleusterau da ac yn cynnwys ystafell fawr, cyntedd, cegin a thoiledau modern. Mae'r ardal chwarae yn cynnwys ystod o offer mawr a bach.

Daw'r plant sydd yn mynychu'r lleoliad o ardal eang ac maent yn trosglwyddo yn bennaf i'r ysgol leol. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant tair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 8.45 a 12:00 o'r gloch y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd 12 plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Sir Ceredigion. Cymraeg yw prif iaith y cartref i oddeutu hanner y plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir ethnig lleiafrifol yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae yna arweinydd a dwy ymarferwraig yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Penodwyd i'w swyddi yn Ionawr 2011. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth 2007 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Nhachwedd 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cyson o'u man cychwyn;
- mae gan y rhan fwyaf o'r plant agweddau da at ddysgu ac maent yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- darperir ystod o brofiadau dysgu sydd yn ennyn diddordeb y plant;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan; ac
- mae'r plant yn derbyn gofal a chymorth da mewn amgylchedd cynnes.

**Rhagolygon gwella**

Mae’r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth gydwybodol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm effeithiol;
- cynllun gwella manwl sydd yn cael ei weithredu;
- tystiolaeth o welliant a datblygiad yn ansawdd y ddarpariaeth; a’r
- defnydd adeiladol o bartneriaethau sydd yn cefnogi’r dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i’r lleoliad:

A1. ymestyn medrau llythrennedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r plant ymhellach;

A2. cryfhau’r cynllunio i sicrhau bod y medrau yn cael eu datblygu’n gyson ar draws y meysydd dysgu;

A3. strwythuro’r gweithgareddau ymhellach i ymestyn y plant mwy galluog;

A4. parhau i ddatblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau hunan arfarnu.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron bob plentyn yn gwrando'n dda yn ystod gweithgareddau grŵp a sesiynau stori. Mae lleiafrif y plant yn hyderus wrth ailadrodd eu profiadau, trafod eu gweithgareddau a mynegi barn. Defnyddiant ystod o eirfa briodol. Mae'r gweddill yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a chyfarchion ond ymatebion byr a gynigir wrth ateb cwestiynau. Mae rhan fwyaf y plant yn medru dwyn i gof hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd ac yn eu hailadrodd yn gywir. Mae bron pob un yn adnabod eu henwau mewn print ac yn defnyddio offer marcio yn briodol ar gyfer ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar.

Gwna rhan fwyaf y plant ddefnydd priodol o'u medrau rhif mewn gweithgareddau bob dydd. Mae'r mwyafrif yn cyfrif i ddeg ac yn defnyddio iaith fathemategol, megis mawr, canolig a bach, yn gywir mewn sefyllfaoedd ymarferol. Gallant greu a dilyn patrwm. Mae'r rhan fwyaf yn medru didoli a threfnu gwrthrychau yn ôl maint a lliw. Maent yn adnabod siapiau sylfaenol ac yn deall bod angen arian i brynu nwyddau yn y siop. Gyda chymorth, mae mwyafrif y plant yn medru symud gwrthrychau ar y sgrin, recordio sylwadau a defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau. Maent yn dechrau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.

Gwna mwyafrif y plant ddefnydd priodol o'u medrau datrys problemau mewn gweithgareddau adeiladau gyda blociau, cwblhau jig-sos a thasgau ymchwilio yn yr ardal allanol. Defnyddiant eu medrau llawdriniol yn effeithiol wrth ddefnyddio offer torri, peintio a gludo. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau creadigol wrth greu lluniau lliwgar a manwl gywir megis o bengwiniaid.

**Lles: Da**

Mae'r holl blant wedi ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn ffurfio perthnasoedd da gyda phlant eraill a chydag oedolion. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd bwyta'n iach amser byr brydau ac o enwau rhai bwydydd da a gwael. Mae eu hymwybyddiaeth o lendid personol yn datblygu'n dda.

Mae rhan fwyaf y plant yn cydweithio'n effeithiol mewn gweithgareddau grŵp ac yn rhannu adnoddau ac offer yn briodol. Mae'r mwyafrif yn ymddwyn yn dda ac yn ymgymryd â phrofiadau newydd yn hyderus. Mae lefelau presenoldeb yn dda.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymgymryd â chyfrifoldebau fel casglu a pharatoi eu byrbrydau, tacluso ar ddiwedd gweithgareddau a rôl 'helpwr y dydd' yn effeithiol.

Mae medrau personol a chymdeithasol y plant yn datblygu'n dda drwy'r gweithgareddau dyddiol, yr ymweliadau a drefnir a thrwy'r cysylltiadau gyda'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Defnyddir fframweithiau sydd yn adlewyrchu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn briodol ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth gyffredinol a thasgau penodol. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sydd yn addas i ystod oed y plant. Er bod y plant yn cael profiad o ystod o weithgareddau addas nid yw'r cynllunio yn sicrhau bod medrau dysgu'r plant yn datblygu'n gyson ar draws y meysydd dysgu.

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant wedi'i hymgorffori'n briodol yn y profiadau a ddarperir. Er hyn, nid oes cyfleoedd digonol bob amser i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Yn ystod sesiynau grŵp, mae cyfleoedd da i'r plant wrando ar storïau, trafod pynciau gwahanol, ymuno mewn caneuon a rhigymau, a defnyddio eu medrau marcio. Rhoddir sylw priodol i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd hefyd iddynt ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r cyfleoedd i dyfu llysiau, gofalu am y pysgod aur ac ymwneud â gweithgareddau ailgylchu yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y plant yn gyson. Sicrheir cydbwysedd priodol rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan y plant a rhai sydd yn cael eu harwain gan oedolion. Mae'r gweithgareddau wedi eu paratoi yn fanwl a gwneir defnydd effeithiol o adnoddau i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu. Er hynny, nid yw'r tasgau wedi'u strwythuro'n ddigon manwl bob amser i gynnig her briodol i'r plant mwy galluog.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm ac yn cynnig cymorth cyson i'r plant. Ymunant yn egnïol yn y gweithgareddau a rheolir ymddygiad yn effeithiol. Mae rhediad esmwyth i drefn y sesiynau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddir gweithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ac yn cofnodi ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau. Defnyddir cyfarfodydd staff yn briodol i drafod yr arsylwadau ond mae'r defnydd o'r wybodaeth i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu yn parhau i ddatblygu. Caiff rhieni eu hysbysu am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad

ysgrifenedig manwl. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol i gefnogi iechyd a lles y plant. Hyrwyddir agweddau cadarn tuag at fwyta'n iach drwy ddarparu byrbrydau dyddiol yn cynnwys ffrwythau, llaeth a dŵr. Rhoddir sylw da i ddatblygiad hylendid personol. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar a chynhaliol o'r holl blant.

Mae trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda i hybu gwerthoedd pwysig megis gofal, cyfeillgarwch a pharch. Mae profiadau, megis dathliadau Nadolig, adrodd gweddi cyn byrbryd a dangos gofal tuag at eraill, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad ysbrydol a moesol y plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a gyflwynir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a chroesawgar i'r holl blant.

Mae gan y lleoliad nifer briodol o ymarferwyr sydd yn meddu ar gymwysterau perthnasol. Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn cyfrannu at greu amgylchedd deniadol. Ceir adnoddau digonol sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Er hyn, mae'r ystod adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn fwy cyfyngedig. Mae'r lle chwarae tu allan yn cynnig lle digonol. Nid oes ardal wyneb caled ond gwneir defnydd priodol o ardal chwarae'r ysgol gynradd ar gyfer gweithgareddau corfforol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain yn effeithiol gan arweinydd cydwybodol. Mae'r arweinydd a'r staff yn gymharol newydd i'w swyddi ond maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithio'n agos fel tîm. Maent yn rhannu amcanion a gwerthoedd eglur sy'n cael eu hadlewyrchu yn ethos a gwaith y lleoliad. Caiff polisïau a gweithdrefnau priodol eu rhoi ar waith. Mae trefn werthuso staff addas yn ei lle.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnig cefnogaeth a chymorth da sy'n hyrwyddo datblygiad pellach y lleoliad. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor rheoli, sydd hefyd yn gymharol newydd, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae'r cadeirydd a'r swyddogion yn cadw cyswllt agos gyda'r arweinydd ac maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a hybu medrau iaith y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y prif ymarferydd wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Mae'n agored i syniadau newydd ac mewn amser byr mae wedi cyflwyno newidiadau sydd yn datblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae gwybodaeth yr ymarferwyr o ddulliau arfarnu mwy strwythuredig yn parhau i ddatblygu.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu sydd yn deillio o hyn yn ddogfen gynhwysfawr ac yn adnabod nifer o feysydd priodol ar gyfer gwelliant. Arfarnir y cynnydd a wneir a chaiff ei gofnodi yn briodol yn y ddogfen. Er bod y cynllun yn cynnwys amserlen, yn nodi'r adnoddau fydd eu hangen, y gost ac yn gosod cyfrifoldebau nid yw'r holl agweddau sydd i dderbyn sylw wedi'u blaenoriaethau'n ddigonol.

Caiff y ddarpariaeth ei monitro'n gyson gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Cytunir ar agweddau addas i gael sylw a rhoddir strategaethau priodol ar waith. Fel rhan o'r swydd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli yn ymwelydd rheolaidd ac yn datblygu ei dealltwriaeth am y ddarpariaeth. Ceisir barn rhieni a thrafodir agweddau ar y ddarpariaeth yn briodol gyda swyddog Mudiad Meithrin.

Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau addas ar ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac ar agweddau ar ddatblygiad a gofal plant. Gwnânt ddefnydd addas o'r hyfforddiant a geir.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nodau ac amcanion clir sydd yn cael eu rhannu gan yr holl bartneriaid.

Mae perthynas gadarn wedi'i sefydlu gyda'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfrynnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes ymgynghorol a swyddog Mudiad Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgol gynradd yn cefnogi'r lleoliad.

Mae’r defnydd priodol o’r gymuned ar gyfer ymweliadau ac o gyfraniadau pobl lleol, megis y nyrs, yn cyfrannu at y ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad wedi’i staffio’n briodol. Gwna’r ymarferwyr ddefnydd da o’u hamser wrth weithio gyda’r plant mewn ystod o weithgareddau. Defnyddir adnoddau yn adeiladol i gefnogi’r dysgu a’r addysgu. Mae argaeledd yr adnoddau yn hybu annibyniaeth y plant fel dysgwyr.

Mae gan yr arweinydd a’r trysorydd ddealltwriaeth glir o’r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o fentrau codi arian ac o grantiau er mwyn ychwanegu at yr adnoddau. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |